# Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd

## NWRC(2)-04-05 p1

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 18 Tachwedd 2005 |
| **Amser:** | 10.00 - 12.30 |
| **Lleoliad:** | Galeri, Caernarfon |
| **Teitl:** | Blaenraglen Waith Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd |

### Diben:

1. Gwahodd y Pwyllgor i drafod lleoliadau a phynciau cyfarfodydd Tymor y Gwanwyn ac i gytuno arnynt.

### Cefndir:

2. Yn y cyfarfod ar 20 Mai, cyflwynwyd rhaglen o leoliadau a phynciau arfaethedig i'r Pwyllgor, yn dilyn cais gan yr Aelodau. Rydym wrthi'n addasu'r rhaglen ar gais yr Aelodau.

### Rhaglen Waith:

3. Awgrymodd yr Aelodau y pynciau a ganlyn:

- Tai Fforddiadwy
- Atal Troseddu
- Cyfle Cyfartal
- Y Gwasanaeth Tân yn y Gogledd
- Addysg Uwch
- Cysylltiadau Hiliol
- Ailgylchu

4. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod mewn trefi a phentrefi ar draws y rhanbarth. Awgrymwyd y dylid cynnal cyfarfodydd yn y lleoliadau a ganlyn:

- Prestatyn
- Caergybi
- Penrhyn Llyn
- Carrog

5. Yn y gorffennol, gofynnwyd i'r Pwyllgor nodi sawl gwaith y tymor yr oedd am gyfarfod. Cytunodd y dylai gyfarfod ddwywaith y tymor. Cynigir bod y Pwyllgor yn cadw at y drefn honno.

6. Ceir blaenraglen waith ddrafft yn Atodiad 1.

## Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor:

7. Gwahoddir yr Aelodau i drafod blaenraglen waith Tymor y Gwanwyn ac i gytuno arni.

## ATODIAD 1

## Blaenraglen Waith Ddrafft Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd

| **Dyddiad Arfaethedig*** | **Lleoliad**** | **Pwnc***** |
|---|---|---|
| 3 Chwefror | Carrog | Tai Fforddiadwy |
| 24 Mawrth | Penrhyn Llyn | Atal Troseddu |

* Rhaid i'r Cyfarfod Llawn gytuno ar y dyddiadau cyn y gallwn eu cadarnhau.

** Rhaid dod o hyd i adeiladau addas cyn y gallwn gadarnhau lleoliad y cyfarfodydd. Felly, gall fod yn rhaid i ni newid lleoliad y cyfarfodydd.

*** Rhaid i'r Pwyllgor gytuno ar y pynciau i'w trafod.